GWOBRAU
ELUSENNAU CYMRU

WELSH CHARITY
AWARDS

Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn Cipio Prif Wobr yn Seremoni Elusennau Cymru

Cyhoeddi Enwau'r Holl Enillwyr

Dydd Mercher 11 Hydref 2023: Dan embargo llym tan 10.30yh
Mae **Cyngor Ffoaduriaid Cymru** wedi cipio'r brif wobr 'Mudiad y Flwyddyn' yng **Ngwobrau Elusennau** Cymru eleni, a gynhaliwyd yng Ngwesty Parkgate, Caerdydd. Cafodd yr elusen flaengar gydnabyddiaeth am gyfraniad enfawr eu gwaith i gefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid ar draws Cymru gyfan.

Cyhoeddwyd yr enillwyr yn hwyr ar 11 Hydref, a daeth Cyngor Ffoaduriaid Cymru i'r brig yn erbyn cystadleuaeth gref gan Calan DVS, Beicio i Bawb, FareShare Cymru, a Llamau. Rhoddwyd clod iddynt am raglen waith sydd, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi rhoi cartref i dros 200 o ffoaduriaid a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref, ac am gychwyn prosiect Cymru-gyfan unigryw sy'n helpu dros 1,700 o bobl o Wcráin.

Dywedodd Andrea Cleaver, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Ffoaduriaid Cymru:
'Dwi'n falch iawn o dderbyn y wobr hon ar ran gwirfoddolwyr a staff Cyngor Ffoaduriaid Cymru sy'n helpu ceiswyr lloches i ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru. Er gwaethaf yr elyniaeth a ddangoswyd gan Lywodraeth y DU, mae'r gweithredoedd caredig dyddiol a ddangosir gan ein staff a'n gwirfoddolwyr wedi fy syfrdanu'n fawr. Dwi mor falch bod Cymru yn Genedl Noddfa.'

Yn ei araith yn y seremoni, a gynhaliwyd eleni yng Ngwesty Parkgate yng Nghaerdydd, dywedodd Matt Brown o CGGC: 'Fel yr Urdd, a enillodd wobr Mudiad y Flwyddyn y llynedd, mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn cynrychioli popeth sy'n dda am y sector. Yn ogystal â chreu gwasanaethau uniongyrchol ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid, maent hefyd wedi rhoi llais i'r rhai sydd ar ymylon ein cymdeithas, ac maent yn ymgorffori'r syniad o Gymru fel Cenedl Noddfa.

‘Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru, fel pob un o’r saith enillydd arall, wedi cyflawni cymaint dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ennill parch ag edmygedd eraill yn y sector am eu gwaith i newid bywydau er gwell. Rydym ni, yn CGGC, wrth ein boddau o gael anrhydeddu’r wyth enillydd teilwng.’

Y gwobrau hyn, a drefnir gan CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru), yw’r unig seremoni wobrwyo a gynhelir yn benodol ar gyfer dathlu’r holl sector wirfoddol yng Nghymru, gan gydnabod cyfraniad arbennig elusennau, grwpiau cymunedol, sefydliadau nid-er-elw a gwirfoddolwyr yng Nghymru, a chan ddathlu’r gwahaniaethau cadarnhaol y gallwn ei wneud i fywydau eraill.

Mae Gwobrau Elusennau Cymru yn dathlu rhai o’r straeon anhygoel am y gwahaniaethau y mae elusennau a gwirfoddolwyr yn ei wneud hyd a lled Cymru. I weld y rhestr fer yn ei chyfanrwydd, ewch i wefan Gwobrau Elusennau Cymru.

RHESTR ENILLWYR LLAWN

Gwirfoddolwr y Flwyddyn (26 oed a hŷn)
Noddir gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Nicola Harteveld
Fe wnaeth Nicola sefydlu Megan’s Starr Foundation ar ôl hunanladdiad ei merch, Megan. Mae hi bellach yn gwirfoddoli 40 awr yr wythnos er mwyn gwella ymwybyddiaeth o fwlio ac i annog iechyd meddwl da ymysg pobl ifanc dan anfantais yn Sir Benfro, a hyd yma mae hi wedi trefnu dros 300 awr o hyfforddiant.

Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn (25 ac iau)
Noddir gan Utility Aid

Sara Madi
Mae Sara, sy’n geisiwr lloches 21 oed, yn wirfoddolwr allweddol gyda Chanolfan Gymunedol Affricanaidd Cymru, gan arwain y grŵp i fenywod ifanc, Women Breaking Borders, gan wneud gwaith cyfieithu ar y pryd mewn Arabeg, a chan sbarduno hyfforddiant cwnsela i bobl ifanc BME gyda Phrifysgol Y Drindod Dewi Sant.

Cynhyrchydd Incwm y Flwyddyn

Noddir gan Tantrwm

Tŷ Hafan

Mae'r argyfwng costau byw wedi arwain at ostyngiad o 50% yn y rhoddion y mae Tŷ Hafan yn eu derbyn, gan sbarduno ymgyrch casglu arian cyhoeddus 60 awr o hyd a oedd yn defnyddio'r model 'Hyrwyddwr Apêl', gan rannu straeon fel stori Rose am ofal diwedd oes a arweiniodd at gasglu £344,649 i'r elusen (y ffigwr uchaf erioed i'r elusen).

Gwobr Hyrwyddwr Amrywiaeth

Noddir gan Hugh James

Women's Equality Network (WEN) Cymru

Mae WEN Cymru ar flaen y gad yn eu gwaith cydweithredol eang i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac mae eu llwyddiannau diweddar yn cynnwys sicrhau diwygiad i'r Senedd er mwyn cynnwys cwotâu rhywedd, a sicrhau nawdd ar gyfer y rhai sydd wedi goroesi trais domestig ond sydd heb fynediad at nawdd cyhoeddus.

Gwobr Defnydd Gorau o'r Gymraeg

Noddir gan Nico

Gwasanaeth Cymorth Dementia dros y Ffôn Cymdeithas Alzheimer Cymru

Mae Cymdeithas Alzheimer Cymru wedi atgyfnerthu eu gwasanaeth Cymraeg trwy gefnogi 281 o ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith yn ystod 2022/23 gyda'u gwasanaeth ffôn, trwy noddi Cynghorwyr Dementia Cymraeg eu hiaith i deithio i ardaloedd lle nad oes rhai rhugl, a thrwy fireinio eu deunyddiau sydd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.

Gwobr Arloeswr

Noddir gan salesforce.org

Gwirfoddolwyr Cymunedol Cymru

Mae'r Pantri, a sefydlwyd gan Wirfoddolwyr Cymunedol Cymru ym mis Chwefror 2023, yn bantri bwyd cymunedol dyfeisgar sy'n achub 400kg o fwyd rhag cael ei yrru i safleoedd tirlenwi, a hynny trwy alluogi ei haelodau i wneud dewisiadau cynaliadwy a fforddiadwy gyda thanysgrifiad basged fwyd £2.

Gwobr Iechyd a Lles
Noddir gan Gwelliant Cymru

Wye Gymnastics & Galaxy Cheerleading Mae Wye Gymnastics & Galaxy Cheerleading yn defnyddio chwaraeon i wneud newid er gwell, gan gynnwys creu cyfleoedd cynhwysol i wneud gymnasteg a chodi hwyl yn Sir Fynwy a Chasnewydd, yn ogystal â mentrau amrywiol eraill er mwyn trawsnewid iechyd a lles y rhai sy'n cymryd rhan.

Gwobr Mudiad y Flwyddyn
Noddir gan SCG Cymru

Cyngor Ffoaduriaid Cymru Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru wedi gweithio'n ddiflino i gefnogi ac i eirioli ar ran ceiswyr lloches a ffoaduriaid, gan ddechrau prosiect Wcráin sydd wedi helpu dros 1,700 o bobl o'r wlad, gan ganfod cartrefi i dros 200 o ffoaduriaid a oedd mewn perygl o fynd yn ddigartref, yn ogystal â chynnal llu o wasanaethau a mentrau hanfodol eraill.

__Diwedd___

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â
Carys Mair Thomas
07702096704
carys@carysmair.com

1. Bydd derbyniad yr enillwyr yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Parkgate yng Nghaerdydd ar Fercher 11 Hydref, o 6:30pm, gyda seremoni i gyhoeddi'r enillwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.
2. Y gyflwynwraig Siân Lloyd fydd yn arwain y seremoni, a bydd hanesion grymus o'r sector wirfoddol a'r effaith ryfeddol y mae cymaint o unigolion, grwpiau, a mudiadau wedi'i gael ledled Cymru.
3. Bydd y canlynol yn bresennol yn y seremoni:
    - Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
    - Helen Stephenson, Prif Swyddog Gweithredol y Comisiwn Elusennol ar gyfer Cymru a Lloegr
    - Dr Neil Wooding CBE, Cadeirydd CGGC
    - Ruth Marks, Prif Weithredwr CGGC
    - Tom Jones, Is-lywydd CGGC
4. Bydd ffotograffydd swyddogol yn bresennol yn y derbyniad a bydd y lluniau'n cael eu rhannu ar 12 Hydref 2023.
5. Os nad ydych eisiau derbyn rhagor o e-byst o restr y wasg, ymatebwch i carys@carysmair.com gan ddefnyddio'r gair STOP